


## JONES, ARTHUR (1776 - 1860), gweinidog gyda'r Annibynwyr



**Enw:** Arthur Jones  
**Dyddiad geni:** 1776  
**Dyddiad marw:** 1860  
**Plentyn:** Eleazer Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd 12 Chwefror 1776 yn Llanrwst. Hanoedd ei fam o deulu'r **esgob William Morgan**. Aelod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd oedd i ddechrau. Bu am gyfnod ym more'i oes yn Lerpwl a bu'n cadw ysgol yng Nghapel Garmon ac yno y dechreuodd bregethu. Priododd yn wraig gyntaf ferch i ' **Twm o'r Nant**,' a buont yn byw yn Ninbych. Troes at yr Annibynwyr a chafodd alwad i Ebeneser, Bangor; urddwyd ef yno Ionawr 1810. Yn 1815 symudodd i Lundain i ofalu am eglwysi Woolwich a Deptford; yn 1823 dychwelodd i Fangor, ac yno y bu hyd 1854, pryd yr ymddeolodd a symud i Gaer i fyw. Bu farw Chwefror 1860 a chladdwyd ym mynwent Bethlehem, Talybont, ger Bangor.

Cafodd radd D.D. o Brifysgol Giessen, yr Almaen. O 1823 i 1854 cadwai un o ysgolion elusennol y **Dr. Daniel Williams** a symudasid i Fangor o Bwllheli ar farwolaeth **Benjamin Jones**. Cyhoeddodd *Pynciau Athrawiaethol*, 1838, a *Rhetoric, neu Areithyddiaeth Ysgrythyrol*, 1810. Cymerai ran amlwg yn nadleuon diwinyddol yn nechrau ei weinidogaeth; yr oedd yn un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i bregethu syniadau **Edward Williams**, Rotherham. Calfin cymedrol y cyfrifid ef. Galwyd ef i gyfrif gan ei gyd-weinidogion am rai o'i ddaliadau.

Ynglŷn â'r pwnc o lywodraeth eglwysig y daeth i amlygrwydd fwyaf - yn y ddadl fawr a adnabyddid fel ' Dadl y Cyfundebau Sirol neu'r Connexion,' dadl â'i gwraidd yng nghlwm wrth ddatblygiad Annibyniaeth yng Nghymru gyfan. Cyhuddid ef o unbennaeth fel gweinidog ar ei eglwys, yn ddeddf iddo'i hun ynglŷn â derbyn aelodau a chodi pregethwyr. Mynnodd godi i bregethu wr o gymeriad amheus fel ' **Robin Ddu Eryri** ' (R. Parry), a pharodd hyn i gymanfa Conwy o eglwysi Arfon yn 1838 (o dan arweiniad ' **Caledfryn** ') ei ddiarddel ef a'i eglwys a sefydlu eglwys arall ym Mangor, sef Bethel. Achosodd y ddadl ddiplastyd mawr a chryn niwed i Annibyniaeth yn y sir. Er cryfed gwrthwynebydd oedd ' **Caledfryn**,' ni syflodd Arthur Jones ddim.

### Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen** , (1890 - 1973)

### Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 273-81

*Y Beiriniad: cyhoeddiad trimisol, er egluro gwyddoriaeth, gwlyddiaeth, llenyddiaeth a chrefydd*, xxv, xxvi, xxviii

*Llawlyfr Undeb Bangor* (1936), 1936, 45-50

Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 137

Mather, *Bywyd a Gwaith Yr Hynod Ddoctor Arthur Jones, o Fangor* (Conwy 1908)

### Delweddau

Robert Sears, **Rev. A. Jones, Bangor**

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76102180

Wikidata: Q20732633

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Owen, R. G., (1953). JONES, ARTHUR (1776 - 1860), gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-ART-1776>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiogel gan  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government